# Cadi Cydweithio

Un diwrnod braf penderfynnodd Cadi a Gwenllian fynd am dro drwy'r coed. Roedden nhw eisiau campio dros nos wrth ymyl y llyn. Roedd eu ffrindiau wedi bod yn siarad am yr hwyl gawson nhw yn nofio a sblashio yn y dŵr llynedd ac roedd Cadi a Gwenllian eisiau diwrnod i'w gofio.

Ar ôl ychydig o amser yn nofio sylweddolodd Cadi bod yr awyr las yn troi'n gymylau du i gyd. "Gwenllian dwi'n siwr bod hi ar fin glawio. Well i ni fynd i godi papell i gysgodi rhag y glaw." meddai Cadi. "Dwi wedi trio yn barod, fedrai ddim deall sut i godi'r papell." dywedodd Gwenllian yn drist. Aeth Cadi ati i ddarllen y cyfarwyddiadau yn ofalus. "Dwi'n meddwl bydd hi'n syniad gwych i ni weithio gyda'n gilydd i adeiladu'r papell yma Gwenllian" pendefynnodd Cadi. Yna aeth y ddwy ati i gydweithio i adeiladu papell clud.

Cyn pen dim roedd y ddwy wedi gorffen ac yn eistedd yn gyfforddus yn eu papell cynnes a chlud. Doedd dim smic i'w glywed, dechraeodd y glaw ddisgyn ar ben y papell. Roedd y ddwy yn falch eu fod nhw wedi adeiladu cysgod rhag y glaw.